

Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)

Mae trafod gwybodaeth bersonol yn y ffordd gywir yn bwysig iawn i Gyngor Cymuned Llandybïe wrth inni ddarparu'n gwasanaethau, a chynnal hyder y cyhoedd.

Data Personol yw unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i berson y mae modd ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r wybodaeth honno. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' trwy gydol yr hysbysiad preifatrwydd hwn, ac mae i'r ddau ohonynt yr un ystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn y ffordd gywir, 'rydym yn ceisio glynu'n llawn at ofynion y ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Felly, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i lunio er mwyn egluro, mewn ffordd sydd mor glir â phosib, yr hyn 'rydym yn gwneud gyda'ch data personol.

1. At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'ch data personol?

Yr ydym yn casglu gwybodaeth, gan ddefnyddio Teledu Cylch Cyfyng, er mwyn atal a chanfod trosedd, ac er diogelwch y cyhoedd.

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth yw i'n galluogi ni arfer ein hawdurdod swyddogol neu weithredu tasg benodol sydd o fudd i'r cyhoedd, fel y nodir yn y Gyfraith, sef y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

2. Pa fath o wybodaeth ydym yn ei ddefnyddio?

Mae ein systemau Teledu Cylch Cyfyng yn recordio lluniau fideo ohonoch mewn mannau cyhoeddus, ac mae modd eich adnabod o'r lluniau hyn. Nid yw unrhyw un o'n systemau yn recordio sain.

Mae system Teledu Cylch Cyfyng wedi'i lleoli ym Mharc Penygroes

3. A fyddwn yn defnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd o ffynonellau eraill?

Wrth weithredu'n systemau Teledu Cylch Cyfyng nid ydym yn derbyn unrhyw wybodaeth amdanoch chi o unrhyw ffynhonnell arall.

4. Trosglwyddo eich gwybodaeth dramor

Ni fyddwn yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth arall amdanoch chi y tu allan i'r DU.

5. Pwy sydd â mynediad at eich gwybodaeth?

Pan fod angen gwneud hynny, byddwn yn rhannu delweddau Teledu Cylch Cyfyng gyda'r derbynwyr canlynol:

Yn allanol:

- Yr Heddlu
- Cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran eu cleientiaid
- Cyrff rheoleiddio eraill, megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

O fewn y Cyngor:

- Cadeirydd a Chlerc y Cyngor

Gwneir hyn mewn sefyllfaoedd penodol megis:

- Pan fod y cais am fynediad at ddelweddau wedi'i wneud mewn cyswllt â hawliad, neu achosion cyfreithiol
- Pan mae'r gyfraith yn gorfodi'r Cyngor i ddarparu'r wybodaeth
- Pan fod angen datgelu'r wybodaeth er mwyn atal neu ganfod trosedd
- Pan mae datgelu o fuddiant hanfodol i'r person dan sylw

6. Am ba mor hir byddwn yn cadw'ch gwybodaeth?

Byddwn yn cadw delweddau ar ein systemau am 28 diwrnod, ac yna bydd rhain yn cael eu dileu neu eu trosysgrifo yn awtomatig. Mae modd cadw recordiad am gyfnod hirach os oes angen gwneud hynny ar gyfer unrhyw bwrpas a nodwyd uchod.

7. Eich hawliau Diogelu Data

Mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad at y data personol y mae Cyngor Cymuned Llandybïe yn prosesu andanoch chi
- Unioni (cyweirio) unrhyw wybodaeth anghywir neu anghyflawn
- Tynnu'n ôl eich caniatâd i'r prosesu, pan taw dyma yw'r unig sail dros y prosesu
- Cwyno at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), y corff annibynnol yn y DU sy'n diogelu hawliau gwybodaeth

Mewn rhai amgylchiadau efallai bod gennych yr hawl i:

- Wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol
- Dileu eich data personol
- Cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol
- Cludadwyedd data

8. Manylion cyswllt

Am wybodaeth bellach parthed â'r hysbyseb preifatrwydd hwn, a'ch hawliau chi, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Clerc y Cyngor
Cyngor Cymuned Llandybïe
D/O 4 Llys y Dderwen Fenhinol
Llandybïe
SA18 3JY

Ebost: info@llandybiecc.wales

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ynghyd â chanllawiau pellach ynghylch y ddeddfwriaeth Diogelu Data, ar [wefan ICO](#).